
YSGOL GYMRAEG
BRYN Y MÔR

Tymor yr Haf 2026

Dosbarth y Gragen

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw ysgogi'r dysgwyr i ymholi a darganfod, i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, wrth ddysgu am gynefin y goedwig, yng Nghymru ac mewn ardal arall o'r byd. Bydd y dysgwyr yn dod i werthfawrogi a sylwi ar amrywiaeth pethau byw ac i ddatblygu corff o wybodaeth gan ddeall bod angen amodau penodol ar bethau byw i oroesi. Hyderwn y byddant yn medru cyfathrebu'n effeithiol gan fynegi eu syniadau trwy wahanol gyfryngau. Bwriadwn hefyd arwain y dysgwyr tuag at wneud penderfyniadau egwyddorol a gwybodus trwy ddeall effaith bodau dynol ar y byd naturiol gan ennyn ynddynt y teimlad o gyfrifoldeb ac ymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned.

# Bant a ni i gynllunio!




Mae coedwig glaw yn yr Amason.

Argyle

Mae llawer o anieiliaid yn byw yn y goedwig!

June

Rydw i eisiau dysgu am gadwyn fwyd a anifeiliaid yn y goedwig.

Ebba

Mynd i'r goedwig!

Rory

Rydw i eisiau darllen storiau am y goedwig.

Gwennan

Rydw i eisiau dysgu am adar gwahanol.

Maisie

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2026

## Dosbarth y Gragen

**Thema'r tymor yw: Beth sy'n cuddio'n y coed?**

**Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!**

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**

www.yggbrynymor.co.uk

### Dyniaethau

- Dysgu am gynefin y goedwig yng Nghymru a beth sy'n byw ac yn tyfu yno,
- Cymharu nodweddion coedwig yng Nghymru a choedwig law.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith pobl ar y byd naturiol.
- Datblygu ymwybyddiaeth o sut allwn ofalu am bethau byw ac am yr amgylchedd.
- Deall beth yw 'Masnach Deg' a bod ein gweithredoedd yn cael effaith ar gymunedau ac ar yr amgylchedd.
- Gwerthfawrogi harddwch a rhyfeddod y byd naturiol a mwynhau darllen stori draddodiadol Fwslemaidd 'Yr Adar Bach.'

### Iechyd a Lles

- Datblygu sgiliau trin pêl.
- Datblygu sgiliau athletau a mwynhau paratoi tuag at y mabolgampau.
- Mwynhau gweithio fel aelod o dîm.
- Ystyried sut mae ein penderfyniadau yn cael effaith ar eraill nawr ac yn y dyfodol.
- Mwynhau gweithio yn yr awyr agored ac ystyried effaith hyn ar ein lles meddyliol.
- Trafod ein hemosiynau.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Dysgu caneuon newydd yn ymwneud a'r uned ddysgu a mwynhau eu perfformio.
- Astudio ac efelychu gwaith yr arlunydd Henri Rousseau.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mwynhau arsylwi, ymholi a gofyn cwestiynau ynglŷn â chynefin y goedwig.
- Deall y gall ein gweithredoedd gael effaith ar yr amgylchedd a phethau byw.
- Mwynhau archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a chylchoedd bywyd.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu cornel chwarae 'Croeso i'n Coedwig'
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **cerdyn post, cyflwyno gwybodaeth ffeithiol ac ysgrifennu'n greadigol**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

### Mathemateg a Rhifedd

- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu, lluosi a rhannu.
- Chwarae gemau mathemateg pen.
- Datblygu sgiliau mesur, dweud yr amser, defnyddio arian a datrys problemau.
- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
- Datblygu sgiliau trin a chyflwyno data.

### Ymweliadau/Profiadau

- Ymweliadau â Pharc Singleton
- Ymweliad a Plantasia i ddysgu am y goedwig law. (dyddiad i'w gadarnhau)